# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 19 Mehefin 2018

Amser: 08.30 - 08.59

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Julie James AC<br>Paul Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Gareth Bennett AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

Trafododd Rheolwyr Busnes welliant Letwin ar ddiogelu'r amgylchedd i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), sydd ar ei daith drwy Senedd y DU ar hyn o bryd, gan ofyn a oedd angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol. Cytunodd y Rheolwyr Busnes na fyddai cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol yn cael unrhyw effaith ymarferol ar daith y Bil ar hyn o bryd, gan fod y gwelliant bellach wedi'i gadarnhau, i bob pwrpas. Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi sicrwydd ar gofnod yn Senedd y DU y bydd y gwelliant ond yn berthnasol i Loegr a materion a gedwir yn ôl, er ei fod wedi'i ddrafftio mewn modd sydd ychydig yn aneglur.

Gofynnodd y Rheolwyr Busnes am bapur briffio ar effeithiau'r gwelliant.

**Dydd Mawrth**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio fel yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer.

### 3.2 Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

## 3.3 Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

### Dydd Mercher 4 Gorffennaf 2018 –

- ~~Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Ardaloedd Menter: Mynd Ymhell? (60 munud)~~ – *gohiriwyd tan 11 Gorffennaf*
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)

### Dydd Mercher 11 Gorffennaf 2018 –

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar gyllid cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: Y defnydd o feddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal (60 munud)
- Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Ardaloedd Menter: Mynd Ymhell? (60 munud) – ***gohiriwyd ers 11 Gorffennaf***

## 3.4 Dadl ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau.

- Cytunodd y Rheolwr Busnes i gynnal dadl ar y cynnig a ganlyn ar 27 Mehefin 2018

**NNDM6671 Mick Antoniw (Pontypridd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil i:

a) rhoi terfyn ar adeiladu tai lesddaliad preswyl yng Nghymru; a

b) gwella ymwybyddiaeth defnyddwyr o oblygiadau ddeiliadaeth lesddaliad.

2. Yn nodi mai diben y Bil fyddai:

a) gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i wrthod pob cais cynllunio ar gyfer datblygiadau tai lesddaliad preswyl; a

b) gosod dyletswydd ar asiantwyr gwerthu a rheoli i ddarparu gwybodaeth am oblygiadau cytundebau lesddaliad i ddarpar brynwyr eiddo lesddaliad sy'n bodoli eisoes.

## 4 Cyfarfod Llawn

### 4.1 Arweinwyr Plaid yn cymryd rhan yn y balot ar gyfer cwestiynau i'r Prif Weinidog

Trafododd y Rheolwyr Busnes y papur, gan gytuno i ddychwelyd at y mater yng nghyfarfod yr wythnos nesaf.

## 5 Rheolau Sefydlog

### 5.1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) – Swyddog Cyfrifyddu, Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor i'r newid i Reol Sefydlog a nodwyd yn y papur.